**Hysbysiad Preifatrwydd (Sut rydym yn defnyddio gwybodaeth disgyblion)**

**Ysgol Gymraeg Sant Curig**

**Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC)**

**Pwy sy'n prosesu eich gwybodaeth?**

Ysgol Gymraeg Sant Curig yw'r rheolwr data o ran y wybodaeth bersonol yr ydych yn ei rhoi i ni. Mae hyn yn golygu mai'r ysgol sy'n pennu'r rhesymau dros brosesu data personol sy'n ymwneud â disgyblion a'u teuluoedd, a'r dull prosesu.

Mewn rhai achosion, bydd eich data'n cael ei yrru at drydydd parti i'w brosesu; fodd bynnag, bydd hyn ond yn digwydd gyda'ch caniatâd chi, oni bai bod yn rhaid i'r ysgol rannu eich data yn ôl y gyfraith. Os yw'r ysgol yn gyrru'ch data yn allanol at brosesydd trydydd parti, bydd yr un safonau diogelu data yn berthnasol i'r prosesydd. Ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth am ein disgyblion gydag unrhyw un heb ganiatâd, oni bai bod y gyfraith a'n polisïau yn ein galluogi ni i wneud hynny.

Cyngor Bro Morgannwg yw swyddog diogelu data ar gyfer Ysgol Gymraeg Sant Curig. Eu rôl nhw yw goruchwylio a monitro gweithdrefnau diogelu data'r ysgol, a sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio â'r RhDDC. Gallwch gysylltu a'r swyddog diogelu data ar 01446 700111 neu DPO@valeofglamorgan.gov.uk.

**Pam rydym yn casglu ac yn defnyddio eich gwybodaeth?**

Mae data disgyblion yn hanfodol ar gyfer defnydd gweithredol yr ysgolion. Er bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth ddisgyblion yr ydych yn ei rhoi i ni yn hanfodol, rydym yn gofyn am ychydig ohoni ar sail wirfoddol. Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data, byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fyddwn yn casglu'r data os oes rhaid i chi ddarparu gwybodaeth benodol am ddisgybl i ni neu os oes gennych ddewis yn hyn o beth. Rydym yn casglu ac yn defnyddio data disgyblion dan adran 6(1)(e) o'r RhDDC sy'n nodi 'Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer perfformiad tasg a gynhelir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd gan y rheolwr'.

Mae gan yr Ysgol ddyletswydd gyfreithiol i gasglu a defnyddio data personol mewn perthynas â disgyblion a'u teuluoedd, ac mae'n bosibl y byddwn hefyd yn derbyn gwybodaeth gan eu hysgol flaenorol, yr Awdurdod Lleol (ALl) a/neu Llywodraeth Cymru (LlC). Rydym yn casglu ac yn defnyddio data personol mwyn bodloni gofynion a buddion cyfreithiol a nodir yn y RhDDC a chyfraith y DU, gan gynnwys y rheiny mewn perthynas â'r canlynol:

- Erthygl 6 ac Erthygl 9 y RhDDC
- Deddf Addysg 1996.

Yn unol â’r uchod, cesglir data personol disgyblion a’u teuluoedd a’u defnyddio ar gyfer y rhesymau canlynol:

- I gefnogi dysgu’r disgyblion
- Monitro ac adrodd ar gynnydd disgyblion
- Rhoi gofal bugeiliol priodol
- Asesu ansawdd ein gwasanaeth
- Cydymffurfio â’r gyfraith ynghylch rhannu data
- Amddiffyn disgyblion (e.e. gwybodaeth am alergeddau neu amddiffyn plant)
- Yn rhan o'n proses derbyn
- Cefnogi disgyblion i benderfynu beth i’w wneud ar ôl iddynt adael yr ysgol
- Cael mynediad at ein systemau prydau ysgol, taliadau a chyfathrebu
- Marchnata a hyrwyddo’r ysgol (mae hyn yn cynnwys lluniau/delweddau).

Ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth am ein disgyblion gydag unrhyw un heb ganiatâd, oni bai bod y gyfraith a'n polisïau yn ein galluogi ni i wneud hynny.

Ymhlith y categorïau o wybodaeth disgyblion yr ydym yn eu prosesu mae:

- adnabyddwyr personol a manylion cyswllt (megis enw, rhif disgybl unigryw, manylion cyswllt a chyfeiriad)
- nodweddion (megis ethnigrwydd, iaith, cenedligrwydd, gwlad genedigaeth a chymhwysedd prydau ysgol am ddim)
- gwybodaeth ddiogelu (megis gorchmynion llysoedd ac ymyrraeth broffesiynol)
- anghenion addysgol arbennig
- meddygol a gweinyddiaeth (megis gwybodaeth ddoctoriaid, iechyd plant, iechyd deintyddol, alergeddau, meddyginiaethau a gofynion dietegol)
- presenoldeb (megis sesiynau a fynychwyd, nifer yr absenoldebau, rhesymau dros absenoldebau ac unrhyw ysgolion blaenorol a fynychwyd)
- asesu a chyrhaeddiad (megis canlyniadau asesiad cwricwlwm cenedlaethol)
- gwybodaeth ymddygiadol (megis gwaharddiadau ac unrhyw ddarpariaeth amgen berthnasol a roddwyd ar waith)

**Sut rydyn yn casglu gwybodaeth disgyblion?**

Rydym yn casglu gwybodaeth disgyblion drwy ffurflenni cofrestru papur a thrydanol ar ddechrau'r flwyddyn ysgol neu Ffeil Trosglwyddo Cyffredin (FfTC) neu drosglwyddiad ffeil diogel gan ysgol flaenorol.

**Am ba mor hir fydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw?**

Bydd yr Ysgol yn cadw gwybodaeth amdanoch chi ar systemau cyfrifiadurol ac hefyd ar bapur. Caiff data personol mewn perthynas â disgyblion a'u teuluoedd ei storio'n unol â Pholisi Diogelu Data'r ysgol. Rydym yn cadw data disgyblion yn ddiogel am yr amser a nodir ar ein hamserlen cadw data. I gael rhagor o wybodaeth am ein hamserlen cadw data a sut rydym yn cadw'ch data'n ddiogel, cysylltwch a'r ysgol. Yn unol â'r RhDDC, nid yw'r ysgol yn cadw data personol am byth; caiff data ei storio gyhyd ag sydd angen i gwblhau'r dasg y cafodd ei chasglu'n wreiddiol ar ei chyfer.

**A fydd fy ngwybodaeth yn cael ei rhannu?**

Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn gwybodaeth ar ddisgyblion fel arfer yn rhan o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Lefel Disgyblion (CYBLD). Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth bersonol hon at ddibenion ymchwil a gynhelir mewn modd sy'n sicrhau nad oes modd adnabod y disgyblion. Gellid defnyddio'r wybodaeth hon at ddibenion ystadegol, i lywio, dylanwadu a gwella'r polisi addysg ac i fonitro perfformiad y gwasanaeth addysg yn ei gyfanrwydd. Gallwch weld enghreifftiau o'r math o ystadegau a gynhyrchir yn www.wales.gov.uk/statistics. Mae'r ALl hefyd yn casglu data wythnosol ar bresenoldeb disgyblion a gyhoeddir yn wythnosol ar wefan Ystadegau Cymru. Nodir os gwelwch yn dda fod y wybodaeth a gesglir a'r data presenoldeb disgyblion ar gyfer ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unig.

Rydym yn rhannu data disgyblion gyda LlC ar sail statudol. Mae'r data'n tanategu cyllid ysgolion a pholisi cyrhaeddiad addysg a monitro.

Mae'r ALl hefyd yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a gesglir gan CYBLD i wneud gwaith ymchwil. Mae'n defnyddio canlyniadau'r gwaith ymchwil hwn i wneud penderfyniadau ar bolisi a chyllid yr ysgolion, i gyfrifo perfformiad yr ysgolion a'u helpu nhw i osod targedau. Cynhelir yr ymchwil mewn ffordd sy'n sicrhau nad oes modd adnabod disgyblion unigol. Yn ogystal, mae LlC a'r ALl yn derbyn gwybodaeth am asesiad y cwricwlwm cenedlaethol a chanlyniadau Arholiadau Cyhoeddus a data presenoldeb ar lefel disgyblion. Mae gan LlC a'r ALl brosesau cadarn ar waith i sicrhau cyfrinachedd unrhyw ddata a rennir.

Ni fydd yr Ysgol yn rhannu eich gwybodaeth bersonol gydag unrhyw drydydd partïon heb eich caniatâd, oni bai bod y gyfraith yn ein caniatáu ni i wneud hynny. Mae’r Ysgol yn rheolaidd yn rhannu gwybodaeth disgyblion gyda:

- Lleoliadau disgyblion wrth adael yr ysgol
- Yr ALl a Consortiwm Canolbarth y De (CCD)
- Llywodraeth Cymru (LlC)
- Estyn
- Y GIG / Cynllun Gwên
- Awdurdodau Arholi
- Yr heddlu a llysoedd
- Gwasanaethau Cymdeithasol ac asiantau cymorth
- Ymchwilwyr
- Sefydliadau sy’n ymwneud â hyrwyddo addysg neu lesiant plant
- Adrannau ac asiantau llywodraethol eraill
- Sefydliadau sy’n ymladd neu sy’n adnabod troseddau
- ParentPay – Clwb Carco / Tripiau Ysgol
- ParentMail
- Taith360
- Private Funds Manager
- Cronfa – Consortium Canolbarth y De
- My Concern
- Colorfoto / Tempest (lluniau unigol a dosbarth)
- Darllen Co.
- SeeSaw
- Speech Link Multimedia Ltd

**Beth yw eich hawliau?**

Mae gan Rieni a Disgyblion yr hawliau canlynol

- Yr hawl gael eu hysbysu;
- Hawl mynediad;
- Hawl i gael unioniad;
- Hawl i gael dilead;
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Yr hawl i wrthwynebu

Os yw'r prosesu data’n seiliedig ar eich caniatâd, mae gennych hawl i dynnu’r caniatâd hwn yn ôl ar unrhyw adeg.

Mae gennych yr hawl hefyd:

- i wrthwynebu prosesu'ch data personol sy'n debygol o achosi, neu sydd yn achosi, niwed neu boen meddwl
- atal prosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol
- gwrthwynebu penderfyniadau'n cael eu gwneud yn awtomataidd
- mewn amgylchiadau penodol, cywiro, blocio, dileu neu ddinistrio data personol anghywir; a
- hawl i geisio unioni, un ai drwy'r Comisiynydd Gwybodaeth, neu drwy'r llysoedd

[Dylid nodi'r sail gyfreithiol ar gyfer pob diben (rhaid cynnwys sail o Erthygl 6, ac un o Erthygl 9 lle caiff data categori arbennig ei brosesu o'r RhDDC - o 25 Mai 2018). Sicrhewch eich bod chi'n rhestru'r holl ddeddfwriaeth berthnasol sy'n cefnogi'r sail gyfreithiol. Ar gyfer casgliadau data DfE, gweler y ddeddfwriaeth berthnasol ar gyfer pob casgliad data penodol]

**Gwneud gais am fynediad at eich data personol**

Dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gan rieni a disgyblion hawl i wneud cais am fynediad at wybodaeth amdanyn nhw rydym yn ei chadw, I wneud cais am eich gwybodaeth bersonol, neu i gael mynediad at gofnod addysg eich plentyn, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data'r ysgol. Rydym yn gofyn yn barchus i chi wneud cais am wybodaeth yn ystod y tymor i roi'r cyfle gorau i'r Ysgol i gydymffurfio â'ch cais o fewn un mis calendr er nad oes ymrwymiad cyfreithiol i chi wneud hynny.

**Lle gallwch chi gael rhagor o wybodaeth?**

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am sut yr ydym yn casglu, yn defnyddio ac yn storio eich data, yna cysylltwch a swyddfa'r ysgol ar 01446 744222.

**Pryderon neu Gwynion**

Os oes gennych bryder neu gŵyn ynghylch y ffordd yr ydym yn casglu neu'n defnyddio eich data personol, dylech nodi'r pryder gyda ni'n gyntaf neu'n uniongyrchol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Manylion Cyswllt**

Os hoffech drafod unrhyw beth yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â Mr Rhodri Jones, Ysgol Gymraeg Sant Curig, Heol y Coleg, Y Barri CF62 8HQ.

manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Sef:

Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth, Ail lawr, Churchill House, Churchill Way, Caerdydd, CF10 2HH

Ffôn: 029 20678400 Ffacs: 029 20678399 E-bost: wales@ico.org.uk